Cyngor Sir
11 Medi 2024

Y Pwnc: Adolygiad Cymunedol Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ("y Ddeddf")

Y Pwrpas: Adolygiad Cymunedol - Argymhellion terfynol i'w cymeradwyo

Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:

1. Bod y cynigion a nodir yn Atodiad C yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor fel Argymhellion terfynol at ddibenion yr Adolygiad ar gyfer:
   a) Cyngor Cymuned Llangyndeyrn a Chyngor Gwledig Llanelli
   b) Cyngor Cymuned Llangyndeyrn a Chyngor Cymuned Trimsaran
   c) Cyngor Cymuned Llangyndeyrn a Chyngor Cymuned Pontyberem

Y Rhesymau:

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, mae dyletswydd ar bob prif gyngor i fonitro'r cymunedau yn ei ardal a, lle bo'n briodol, drefniadau etholiadol cymunedau o'r fath at ddibenion ystyried a ddylid gwneud y newidiadau a argymhellir. Mae'r newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno drwy adolygiad cymunedol. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio sicrhau penderfyniad gan y Cyngor a fydd yn cwblhau trefniadau cymunedol Cynghorau Tref a Chymuned Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol.

O ganlyniad i gynnal adolygiad llawn eleni, amlygwyd nifer o anghysondebau sy'n ymwneud â nifer fach o eiddo sy'n croesi dros Ffiniau Cymunedol na ellid mynd i'r afael â hwy o dan adolygiad gwreiddiol Adran 31. Felly roedd y Cyngor Llawn wedi cymeradwyo ar 11 Hydref 2023 fod Adolygiad Adran 25 yn dechrau o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

Dechreuodd yr ymgynghoriad cychwynnol ar 12 Hydref a daeth i ben ar 22 Tachwedd 2023. Cyflwynwyd y cynigion drafft i'r Cyngor Llawn ar 28 Chwefror 2024, ac mae'r adroddiad hwn bellach yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor Llawn ar yr argymhellion Terfynol.

Angen i'r Cabinet wneud penderfyniad	Na
Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad	OES

YR AELOD CABINET SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO: - Cyng. Philip Hughes
Trefniadaeth a'r Gweithlu

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Y Gyfarwyddiaeth: Prif Weithredwr Enw Pennaeth y Gwasanaeth: Steve Murphy Awdur yr Adroddiad: Amanda Edwards	**Swydd** Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil Rheolwr y Gwasanaethau Etholiadol	01267 228609 AmEdwards@siargr.gov.uk

CRYNODEB GWEITHREDOL

PWNC

Adolygiad Cymunedol Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ("y Ddeddf")

1. DIBEN YR ADRODDIAD.

Bydd y Cyngor yn cofio bod Adroddiad Cymunedol wedi'i drefnu oherwydd bod gan y Cyngor ddyletswydd o dan adran 22 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ("y Ddeddf") i adrodd bob deng mlynedd ar adolygiad cymunedol gan ystyried amserlen Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar gyfer cynnal yr adolygiadau o drefniadau etholiadol prif ardaloedd sy'n ofynnol gan adran 29 (1) o'r Ddeddf.

Bu i'r Cyngor, yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror 2023, gymeradwyo cychwyn Adolygiad Cymunedol i archwilio'r trefniadau llywodraethu Tref a Chymuned presennol ac i wneud Argymhellion Terfynol ar gyfer unrhyw newid priodol. Daeth yr adolygiad hwn i ben ar 11 Hydref 2023. Bydd yr argymhellion a gymeradwywyd yn dod i rym gyda'r set nesaf o etholiadau'r Cynghorau Tref a Chymuned a fydd yn cael eu cynnal ym mis Mai 2027.

Fel rhan o'r adolygiad hwn, nodwyd bod anghysonderau o ran ffiniau cymunedol yn (Gweler Atodiad A am y mapiau perthnasol):

a) Anghysondeb o ran ffin gymunedol rhwng Cyngor Cymuned Llangyndeyrn a Chyngor Cymuned Trimsaran sy'n cynnwys rhifau 7-15 a 58-60 Heol Waunhir.
b) Anghysondeb o ran ffin gymunedol rhwng Cyngor Cymuned Llangyndeyrn a Chyngor Gwledig Llanelli sy'n cynnwys rhifau 1 a 3, Erwau'r Garn, Carwe.
c) Anghysondeb o ran ffin gymunedol rhwng Cyngor Cymuned Llangyndeyrn a Chyngor Cymuned Pontyberem sy'n cynnwys un eiddo: Brynceirios, Bancffosfelen, Llanelli.

Rhoddwyd caniatâd yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 11 Hydref 2023 i gynnal adolygiad dan Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2023. Dechreuodd y cyfnod ymgynghori cychwynnol o chwe wythnos ar 12 Hydref 2023 ac fe'i cwblhawyd ar 22 Tachwedd 2023. Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor ar 28 Chwefror 2024 ar yr Argymhellion Drafft.

Gofynnir yn awr i'r Cyngor fabwysiadu'r Argymhellion Terfynol at ddibenion yr Adolygiad Cymunedol hwn.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?	NAC OES
	●Mapiau perthnasol sy'n tynnu sylw at anghysondebau- Atodiad A ●Ymatebion i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus - Atodiad B ● Argymhellion Terfynol - Atodiad C

Y GOBLYGIADAU

Cadarnhaf nad oes unrhyw oblygiadau eraill yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn, ar wahân i'r goblygiadau hynny y cytunwyd arnynt â'r Cyfarwyddwyr / Penaethiaid Gwasanaethau priodol, ac y cyfeirir atynt yn fanwl isod: **Llofnodwyd: Steve Murphy, Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil**						
Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldebau **DIM**	Cyfreithiol **OES**	Cyllid **DIM**	TGCh **DIM**	Materion Rheoli Risg **DIM**	Goblygiadau Staffio **DIM**	Asedau Ffisegol **DIM**

2. Cyfreithiol

Mae A22 (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn nodi bod yn rhaid i brif gyngor ystyried amserlen Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar gyfer cynnal yr adolygiadau o drefniadau etholiadol prif ardaloedd sy'n ofynnol wrth benderfynu pryd i gynnal adolygiad cymunedol.

Mae Adran 34 o'r Ddeddf yn nodi'r ymgyngoreion gorfodol ar gyfer adolygiad cymunedol.

YMGYNGHORIADAU

Cadarnhaf fod yr ymgynghoriadau priodol wedi cael eu cynnal ac y manylir isod ar y canlyniadau

Llofnodwyd: Steve Murphy, Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil

(Nodwch ganlyniadau'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn erbyn y penawdau canlynol, lle maent yn berthnasol)

1. Cais gan y Pwyllgor Craffu i ragbenderfynu	NAC OES
Os mai 'OES' yw'r ateb, gofynnir ichi gynnwys y wybodaeth ganlynol: -	
Y Pwyllgor Craffu	
Y dyddiad yr ystyrid yr adroddiad: -	
Canlyniad/Argymhellion y Pwyllgor Craffu -	

2. Yr Aelod(au) Lleol

Ddim yn berthnasol

3. Cynghorau Tref / Cynghorau Cymuned

Ddim yn berthnasol

4. Partneriaid Perthnasol

Ddim yn berthnasol

5. Cynrychiolwyr y Staff a Sefydliadau eraill

Ddim yn berthnasol

HYSBYSWYD/YMGYNGHORWYD Â'R AELOD CABINET SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO DO	**Nodwch unrhyw sylwadau yma**

Adran 100D o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth
Rhestr o'r Papurau Cefndir a ddefnyddiwyd i lunio'r adroddiad hwn:

NID OES DIM

Teitl y Ddogfen	**Cyfeirnod y Ffeil**	Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd gael golwg arnynt
Ymatebion i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus		